**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Shevaun Haviland CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Siambrau Masnach Prydain

30 Ionawr 2026

Annwyl Shevaun,

**Ymchwiliad i fewnfuddsoddi**

Mae Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wrthi'n cynnal ymchwiliad i fewnfuddsoddi. Rydym o'r farn y gallai y Siambrau Masnach Prydain gynnig mewnwelediad gwerthfawr i'n helpu i ddeall profiad buddsoddwyr y tu allan i'r DU. Rhannwch unrhyw syniadau gyda ni ar bob cyfrif.

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed unrhyw sylwadau sydd gennych ar y canlynol:

1. Rôl swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a ydych chi'n teimlo eu bod nhw'n hyrwyddo Cymru'n effeithiol fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi ac unrhyw wybodaeth sydd gennych chi am eu llwyddiant wrth gynhyrchu cysylltiadau ar gyfer mewnfuddsoddi; a hefyd

2. "Taith y cwsmer" i fuddsoddwyr sydd wrthi'n buddsoddi yng Nghymru yn ehangach.

Byddem hefyd yn croesawu eich adborth ar unrhyw un o feysydd eraill yr ymchwiliad. Dyma'r cylch gorchwyl:

- Pa mor effeithiol yw dull Llywodraeth Cymru o ddenu mewnfuddsoddwyr i Gymru, a beth yw ei brif gryfderau a'i wendidau? Sut y dylid mynd i'r afael ag unrhyw wendidau canfyddedig?

- I ba raddau y mae dull Llywodraeth Cymru o ddenu mewnfuddsoddi yn targedu meysydd o gryfder o fewn economi Cymru? Pa mor llwyddiannus yw hi o ran manteisio ar gyfleoedd mewn sectorau newydd sydd â’r potensial i chwarae rôl allweddol yn economi'r dyfodol?

- Pa mor dda y mae gwahanol haenau’r llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddod â mewnfuddsoddi i Gymru, ac a oes unrhyw welliannau y gellid eu gwneud?

- Pa mor effeithiol yw Llywodraeth Cymru o ran darparu cymorth parhaus i fewnfuddsoddwyr, ac i ba raddau y mae hyn yn cefnogi buddsoddwyr presennol i ehangu neu ddiogelu eu gweithrediadau yng Nghymru?

- Beth yw'r rhwystrau allweddol y mae Cymru yn eu hwynebu wrth ddenu mewnfuddsoddi a’i gynnal, a sut y dylid mynd i'r afael â'r rhain?

- Pa enghreifftiau o arfer gorau o'r tu hwnt i Gymru y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu ohonynt mewn perthynas â denu mewnfuddsoddi a darparu cefnogaeth barhaus i fewnfuddsoddwyr?

- I ba raddau mae'r data sydd ar gael yn darparu darlun clir a chynhwysfawr o fewnfuddsoddi yng Nghymru, ac a oes unrhyw welliannau y dylid eu gwneud?

Anfonwch eich ymateb erbyn 19 Chwefror 2026. Bydd eich cyfraniad yn ein helpu i ystyried ystod eang o safbwyntiau fel rhan o'n hadroddiad.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg